Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Cywion**

**Ysgol Gynradd Aberaeron**
**Maes yr Heli**
**Aberaeron**
**SA46 0BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**6 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Clwb Cywion yn 2010 ac mae'n darparu gofal i uchafswm o 16 o blant. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal i blant rhwng dwy a hanner oed a phedair oed. Mae ar agor rhwng 1am a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Catrin Thomas a Mair Jones yw'r personau cofrestredig. Diana Walters yw'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn yng Nghlwb Cywion. Cânt hwyl gyda'u ffrindiau wrth dderbyn gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae'r plant yn cael gofal gan staff gwybodus, gofalgar a chyson, sy'n ymwybodol o'u hanghenion. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir.

2. **Gwelliannau**
   Mae cyfarpar newydd wedi'i brynu ar gyfer yr ardal awyr agored.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol, ond nad oedd y rhain yn effeithio ar ofal y plant; felly rydym wedi dwyn y rhain i sylw'r personau cofrestredig a dweud wrthynt fod yn rhaid mynd i'r afael â nhw. Mae'r materion hyn yn ymwneud â sesiynau goruchwyliaethau ac arfarniadau'r staff.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae plant Clwb Cywion wedi setlo yn y gwasanaeth ac yn hapus yno. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau chwarae gyda'i ffrindiau ac yn mwynhau'r gweithgareddau, fel chwarae yn yr awyr agored a phaentio.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r oedolion sy'n gofalu am y plant yn gwrando arnynt ac mae'r plant yn gwybod y caiff eu ceisiadau eu bodloni. Maent yn hoffi chwarae wedi'i arwain ganddynt, a gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth i'w wneud.

Cynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau i'r plant yn y gwasanaeth. Roedd y plant yn hyderus wrth ddewis beth roeddent am chwarae gan ddewis chwarae ar eu pen eu hunain, cyd-chwarae neu chwarae gyda phlant eraill. Roedd y plant yn rhannu blociau tra roedd un plentyn yn hapus yn chwarae â mobilo ar eu pen eu hun. Treuliodd un plentyn gryn amser yn adeiladu castell, gan ddweud wrth y staff “I’m building a castle” ac roedd wrth ei fodd ag ymateb y staff. Roedd y plant yn gwneud ceisiadau i'r staff ac roeddent yn gwybod y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, lle y bo modd. Er enghraifft, gofynnodd y plant i'r staff a allent baentio “Miss, can I do some painting?”. Roedd gan y plant ddewis o baent lliw ac amrywiaeth o frwsys paent o wahanol faint. Gallent baentio'r hyn a fynnant. Gwnaethant ddewis o blith trionglau o wahanol faint a lliw a gludo eu trionglau ar eu papur fel y mynnant. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau, megis dringo, beiciau, sgwteri, chwarae tywod neu gegin fwd. Dewisodd rhai plant beidio â mynd allan i'r awyr agored, ond i chwarae yn y pwll tywod wrth fynedfa'r ardal awyr agored.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac maent yn teimlo'n hyderus y caiff eu teimladau eu hystyried.

Roedd y plant yn cyrraedd y clwb o'r ysgol yn hapus, gan wenu a chwerthin gyda'u ffrindiau. Roedd y staff yn cyfarch y plant yn unigol ac roedd y plant yn gwenu'n hapus wrth gael eu cyfarch. Roedd y plant yn fwy na pharod i sgwrsio â'r plant eraill a'r staff ynglŷn â'r hyn roeddent am ei chwarae. Mae nifer fach o'r plant yn cyrraedd y clwb o gartref. Ar y cyfan, roedd y plant hyn yn setlo'n gyflym, gan ddewis ble i chwarae yn hyderus. Roedd un plentyn wedi cynhyrfu ar ôl cyrraedd o gartref a chafodd ei gysuro gan y staff. Roedd y plant yn awyddus i ddangos modelau roeddent wedi'u creu i'r staff . Roedd un plentyn yn falch o ddangos roced a greodd o mobilo ac roedd yn wên

o glust i glust wrth i aelod o'r staff ymateb yn gadarnhaol. Roedd y plant wedi ymlacio ac yn hapus iawn yn ystod ein hymweliad. Mae cysondeb o ran aelodau'r staff yn helpu âr cyfnod pontio o'r ysgol i'r clwb gan fod rhai o'r staff yn gweithio yn yr ysgol a'r clwb. Cadarnhaodd y rhieni fod eu plant yn edrych ymlaen at fynd i'r clwb, “Mae hi yn edrych ymlaen i fynd i’r clwb.”

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Roedd y plant yn cydchwarae ac yn chwarae gyda'i gilydd mewn ffordd garedig a chydweithredol. Maent yn ymwybodol beth yw ymddygiad derbyniol, ac maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda.

Roedd y plant yn chwarae ac yn cydweithredu'n dda iawn yn ystod yr arolygiad. Roedd y plant yn dal dwylo gyda'i gilydd wrth fynd i chwarae. Roedd ymdeimlad o gymuned ac amgylchedd gofalgar iawn, gyda'r plant yn helpu ei gilydd ac yn bod yn garedig. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae yn y gornel gartref chwarae rôl. Casglodd un plentyn ddau degan ci meddal o ardal arall cyn rhoi un ohonynt i'w ffrind. Dywedodd wrth ei ffrind “Here you are.  Mine is called Hetty.” Cymerodd y plant eu tro i lenwi'r felin tywod â thywod a blociau, gan eu pasio i'w gilydd. Pan syrthiodd plentyn pan oedd yn yr awyr agored, gwnaeth blentyn arall ei gysuro gan fwytho ei fraich.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn arwain eu chwarae eu hunain, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd yn y gwasanaeth hwn.

Roedd y plant yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn hyderus wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain, ac yn arwain eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn yr awyr agored yn esgus nofio o dan y môr. Gweiddodd un plentyn i'w ffrindiau,”I’m swimming under the sea! Come on!”. Roedd y plant yn rhedeg o gwmpas yn yr awyr agored, gan chwifio eu breichiau a chwythu aer allan. Roedd y plant yn hyderus wrth gymryd risgiau call, gan ddringo dros deiars ac ar draws trawstiau cydbwysedd. Dan do, roedd y plant yn mwynhau trafod y llyfr "Tomi a Swn y Nos", gan drafod pa ran roeddent wedi'i mwynhau a pha ran nad oeddent wedi'i mwynhau gymaint. Gwnaethant gymryd rhan yn frwd mewn caneuon actol, fel “Mr Cyflym ydw i!”

Mae'r plant yn ffynnu yn sgîl y cyfleoedd chwarae rhagorol sydd ar gael.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth.

Gwnaeth y plant dacluso teganau ar wahanol adegau yn ystod y sesiwn. Roeddent yn defnyddio'r toiledau'n annibynnol, ac yn golchi a sychu eu dwylo cyn cael byrbryd. Aethant yn hyderus o'r ardal awyr agored i'r ardal dan do i fynd i'r toiled yn annibynnol. Gwnaethant roi bwyd gwastraff yn y bin ailgylchu yn annibynnol ar ddiwedd amser byrbryd. Roedd gan y plant sgiliau echddygol bras ardderchog, yn dringo ac yn cydbwyso'n dda iawn ar yr offer helaeth yn yr awyr agored. Mae ganddynt sgiliau echddygol manwl a sgiliau siswrn da, ac yn rheoli brwsys paent o wahanol faint yn dda. Gwnaethant gasglu eu cotiau a'u bagiau eu hunain pan oedd yn amser iddynt fynd adref.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael cyfleoedd da i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda iawn ac yn darparu gofal ymatebol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn creu awyrgylch hamddenol a gofalgar lle caiff y plant eu cefnogi i gymryd rhan yn eu dewis o chwarae a lle caiff eu datblygiad unigol ei hyrwyddo.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol mewn ymateb i ddamweiniau a digwyddiadau.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig diweddaredig. Roedd gweithdrefnau clir ar waith i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn arfer gweithdrefnau hylendid bwyd da, megis sicrhau bod byrddau wedi'u sychu'n lân cyn i'r plant fwyta eu byrbryd. Roedd y staff yn ymwybodol o alergenau ac wedi ymgymryd â hyfforddiant am ymdrin â chyflyrau meddygol penodol y plant.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd fedrus.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn helpu'r plant i ryngweithio'n briodol.

Roedd y staff yn annog y plant i rannu, i fod yn garedig i'w gilydd ac i ystyried teimladau'r plant eraill. Roedd y staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac roeddent yn gadarnhaol iawn, gan ganmol y plant yn rheolaidd. Eisteddodd y staff ar y llawr ar lefel y plant, yn sgwrsio â nhw am yr hyn roeddent yn ei wneud. Pan wnaeth y plant baentio llun, gwnaeth aelod o'r staff ganmol eu hymdrechion. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliad. Er enghraifft, gwnaethant rannu adnoddau, megis toes chwarae a thorwyr. Gwnaethant gymryd eu tro yn arllwys tywod i mewn i dwndis, a gwnaethant aros eu tro wrth ddefnyddio'r cyfarpar yn yr awyr agored. Roeddent yn cydweithredu'n dda yn y gornel gartref chwarae rôl, gan rannu bwyd chwarae rôl â'i gilydd. Roeddent yn dal dwylo yn garedig, yn enwedig gyda'r plant newydd, ac roeddent yn gwarchod ei gilydd. Roedd y staff yn modelu ymddygiad disgwyliedig drwy siarad â'i gilydd a'r plant yn garedig.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn effeithiol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn caniatáu i'r plant arwain eu chwarae eu hunain, ac maent yn ymateb i anghenion unigol y plant.

Roedd y staff yn darparu gofal magwrus ac ymatebol. Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn. Roedd rhai aelodau o'r staff yn gweithio yn y dosbarth meithrin yn ystod y bore ac roedd yr holl staff yn gweithio yn y clwb carco. Roeddent yn darparu parhad gofal a dywedodd y rhieni wrthym eu bod o'r farn bod hyn yn fanteisiol. Roedd y rhieni'n llenwi ffurflen wybodaeth am eu plentyn cyn iddynt ddechrau, a oedd yn cynnwys unrhyw anghenion a allai fod ganddynt, megis cyflyrau meddygol. Cysurodd y staff y plant a oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Gwelsant fod un plentyn yn sâl a bod angen iddo fynd adref. Roedd y staff yn sychu trwynau'r plant yn ôl yr angen, ac yn eu hannog i sychu eu trwynau eu hunain. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau ar themaau, megis ' yr haf' a 'cartrefi', ond roedd y plant yn arwain eu chwarae eu hunain yn aml. Roedd y staff yn ymateb yn garedig i geisiadau a wnaed gan blant unigol. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn a allai chwarae dan do yn hytrach na chwarae yn yr awyr agored. Ymatebodd y staff yn garedig, gan ei sicrhau y byddai'n ddiogel a rhoi caniatâd iddo chwarae yn y pwll tywod wrth fynedfa'r ardal awyr agored.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad a chwarae'r plant yn effeithiol, ac maent yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn defnyddio amgylchedd ysgol i ddarparu gwasanaeth gofal plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r plant yn gallu defnyddio ardal dan do ac ardal awyr agored, ac mae'r ddwy ardal yn cynnwys adnoddau da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae gan yr arweinwyr brosesau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Nid oedd modd i ymwelwyr fynd i mewn i adeilad yr ysgol heb fod aelod o'r staff yn agor y drws iddynt. Defnyddiwyd system ymwelwyr yr ysgol a gofynnwyd i ymwelwyr lofnodi a gwisgo bathodyn adnabod ymwelwyr. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y larymau tân a mwg wedi eu profi. Roedd diffoddwyr tân ar y wal ac roedd yr arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ar y cyd â'r ysgol. Roedd yr holl gyfarpar trydanol wedi cael prawf PAT, ac roedd y system wresogi yn cael ei gwasanaethu'n flynyddol gan yr awdurdod lleol. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Roedd offer glanhau yn cael eu storio mewn cwpwrdd, allan o gyrraedd y plant. Cynhaliwyd asesiadau risg ar gyfer yr ardal dan do, ac roedd yr ysgol yn cynnal asesiad risg ar gyfer yr ardal awyr agored yn flynyddol. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio ystafell sydd â digon o adnoddau yng nghanol amgylchedd yr ysgol. Mae ardal awyr agored eang sy'n cynnwys adnoddau da ar gael iddynt, ac mae'r ardal hon yn rhan annatod o'r gwasanaeth.

Roedd yr ystafell wedi cael ei threfnu i greu amrywiaeth o ardaloedd chwarae addas i'r plant; ardal grefft, mathemateg, darllen, adeiladu, gwneud marciau ac ardal ddigidol. Roedd arddangosfeydd lliwgar ar y waliau yn cynnwys penblwyddi ac arddangosfa ddigidol. Mae'r gwasanaeth yn gallu defnyddio toiledau bach, basnau ymolchi a sychwyr llaw yr ysgol. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan annatod o'r gwasanaeth ac roedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae i'r plant. Er enghraifft, llwybrau amrywiol, glaswellt, ffrâm ddringo, cegin fwd, pwll tywod, twnnel teiars, beiciau a threiciau.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae cyfarpar ac adnoddau o ansawdd da ar gael dan do ac yn yr awyr agored sy'n addas ar gyfer ystod oedran.

Roedd amrywiaeth dda o deganau, gemau ac adnoddau ar gael i'r plant. Roedd yr adnoddau mewn cyflwr da ac roedd digon o ddewis ar gyfer ystod oedran y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr ardal allanol hefyd yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ysgogol ac o ansawdd da sy'n caniatáu i'r plant chwarae mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, pwll tywod, beiciau, treiciau, cegin fwd, ffrâm ddringo a thwneli. Caiff y teganau a'r adnoddau eu glanhau'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, roedd y plant yn mwynhau paentio, mobilo, toes chwarae a'r amrywiol gyfarpar yn yr awyr agored. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynd i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd rhagorol.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae arweinwyr Clwb Cywion yn sicrhau bod digon o staff yn y gwasanaeth bob amser. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Darperir cyfleoedd hyfforddi i'r staff ond nid ydynt yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd nac arfarniadau blynyddol. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn rhoi polisïau'r gwasanaeth ar waith yn llawn fel y polisi ymddygiad. Roedd y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant drwy gydol ein hymweliad. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol ac roedd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.  Roedd yn amlwg bod y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Er enghraifft, “The staff are very welcoming and helpful.” Roedd ffeiliau'r plant yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol angenrheidiol. Roedd y plant yn ymddangos eu bod wedi ymlacio ac yn hapus yn ystod ein hymweliad.

Mae'r arweinyddiaeth yn dderbyniol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ystyried barn y plant, y rhieni a'r staff.

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol ac yn llunio adroddiad. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r ardal awyr agored yn ddiweddar. Prynwyd adnoddau newydd, megis sgwteri a briciau adeiladu ar gyfer yr ardal awyr agored, ynghyd â llyfrau, lego, offer storio a theganau byd bach ar gyfer yr ardal dan do. Roedd gwaith i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach wedi'i gynllunio, ac roedd y gwasanaeth yn prynu ffrâm ddringo newydd.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn gymwys a phrofiadol, ond nid ydynt yn cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau staff rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefelau staffio'r gwasanaeth yn gywir a bod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n bresennol. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn wythnosol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o sesiynau goruchwylio nac arfarniadau staff ar gael yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl hyfforddiant craidd yn gyfredol, ac roedd y staff wedi mynd i nifer o sesiynau hyfforddi, megis ymwybyddiaeth o awtistiaeth, jabadao a "traed bach sionc."

Mae'r staff a'r adnoddau eraill yn cael eu rheoli mewn ffordd ddigonol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi datblygu cydberthynas dda gyda'r rhieni a'r ysgol lle cynhelir y clwb.

Y pennaeth a dirprwy bennaeth yr ysgol lle cynhelir y clwb, yw'r personau cofrestredig ar gyfer y clwb. Mae'r person â gofal yn gweithio yn y clwb carco ac mae'r aelod arall o'r staff yn gweithio yn yr ysgol, yn ogystal â'r clwb carco. O ganlyniad, gwelwyd bod cydberthnasau rhwng y staff a'r plant yn gryf a diogel. Roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng y clwb a'r ysgol ehangach. Roedd y rhieni a'r staff yn sgwrsio'n hamddenol pan oedd hi'n amser casglu'r plant. Dywedodd y person â gofal wrthym mai eu bod yn rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw ddatblygiadau i'r gwasanaeth yn y modd hwn. Roedd yr arweinwyr wedi cytuno ar gontractau gyda'r rhieni i gyd, ac wedi ceisio caniatâd am agweddau ar y gwasanaeth, megis tynnu ffotograffau. Dywedodd y rhieni fod eu plant eisiau mynd i'r gwasanaeth hyd yn oed pan nad oedd angen iddynt fynd, a'u bod yn edrych ymlaen at fynd i'r clwb.

Mae'r clwb carco wedi datblygu partneriaethau da.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Rheoliad 29 (3) (a) am nad oedd staff wedi cael arfarniadau blynyddol na sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd. Cymerwyd camau gweithredu mewn perthynas â hyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau.
Rheoliad 30 am nad oedd y wybodaeth berthnasol ynglŷn â phob plentyn ar gael ac nad oedd cofnod o oriau presenoldeb gwirioneddol y plant. Cawsom gadarnhad ysgrifenedig fod y wybodaeth a oedd ar goll o ffeiliau rhai o'r plant yn ystod yr ymweliad arolygu wedi'i cynnwys cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau.
Rheoliad 28 (2) (b) am nad oedd tystiolaeth bod gwiriadau addasrwydd llawn wedi'u cwblhau ar gyfer y staff.
Rheoliad 31 am nad oedd AGGCC wedi cael gwybod am newidiadau i'r staff a gyflogir gan y gwasanaeth.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol ond nid oedd y rhain yn effeithio ar ofal y plant; felly rydym wedi dwyn y rhain i sylw'r personau cofrestredig a dweud wrthynt fod yn rhaid mynd i'r afael â nhw. Mae'r materion hyn yn ymwneud â sesiynau goruchwylio ac arfarniadau'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth yr arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 11 Medi 2018 am gyfanswm o 5 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn;

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, polisïau, cofnodion hyfforddi a chofnodion damweiniau;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant;
- arsylwi ar blant yn defnyddio adnodd SOFI (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) ac arsylwadau grŵp cyffredinol, a
- siarad â'r ddau berson cofrestredig, y person â chyfrifoldeb, y staff a'r plant

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Catrin Thomas**<br>**Mair Jones** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Diana Watters** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **16** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng 2.5 a 4 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 1pm a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **3 Rhagfyr 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi**<br>**ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |